# CYNGOR – 18 EBRILL 2024

**PWNC:** CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL – AMCANION A CHAMAU GWEITHREDU 2024-2028

**ADRODDIAD GAN:** CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 I gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 y Cyngor (Atodiad A) i'r Cyngor, yn dilyn ei adolygiad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio ar 22 Chwefror 2024, ac ystyriaeth gan y Cabinet ar 6 Mawrth 2024.

1.2 Mae'r Cynllun yn manylu'r Amcanion Cydraddoldeb newydd a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y cyfnod 4 blynedd nesaf, o 2024 i 2028.

## 2. CRYNODEB

2.1 Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i rym ar 6 Ebrill 2011 ac roedd yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Mae'r Cyngor wedi bod â Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith ers 2012 a rhaid iddo nawr ddiweddaru hwn ar gyfer y cylch 4 blynedd nesaf, 2024-2028.

2.2 Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ers 2012 wedi sicrhau bod gan y Cyngor sylfaen dda ar waith i barhau i wella ein hamcanion ac i'n cynorthwyo i gyflawni tri o nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.3 Adolygodd Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio'r Cyngor y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar 22 Chwefror, a chytunwyd i argymell y Cynllun i'r Cabinet. Ar 6 Mawrth adolygodd y Cabinet y Cynllun drafft cyn iddo gael ei ystyried a'i fabwysiadu ger bron y Cyngor llawn.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 atodedig, fel yr argymhellir gan y Cabinet.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Mae'n ofynnol i'r cyngor, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, i gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddatblygu i nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb a sut y bydd yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5.2 Cynhaliwyd proses ymgynghori gynhwysfawr yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023 i sicrhau ein bod yn cynnwys cymaint o unigolion a grwpiau â phosibl ar ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb drafft a'r camau gweithredu cysylltiedig.

5.3 Cafodd adroddiad ymgysylltu ei gynhyrchu; sef Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 CBSC - Adroddiad Ymgynghori. Gellir gweld yr Adroddiad Ymgynghori ar y dudalen we ganlynol, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol sy'n ymwneud â chamau datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 – https://trafodaeth.caerphilly.gov.uk/cynllun-cydraddoldeb-strategol-2024-2028

5.4 Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori yn gryf o blaid yr amcanion drafft arfaethedig. Gan ddefnyddio'r adborth hwn a'r data sy'n berthnasol i'r Cyngor ar hyn o bryd, y saith Amcan Cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 atodedig yw:

1. **Mynediad i Wasanaethau a Gwybodaeth**
   Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau

2. **Addysg Sgiliau a Chyflogaeth**
   Gwella cyfleoedd addysg, sgiliau a chyflogaeth i bawb

3. **Cymunedau Cynhwysol**
   Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol

4. **Ymgysylltu Cynhwysol ac Effeithiol**
   Ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau, goresgyn rhwystrau i ymgysylltu a chefnogi ac annog yr holl drigolion i leisio'u barn

5. **Y Gymraeg**
   Sicrhau bod y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n cydymffurfio â gofynion statudol

6. **Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal**
   Creu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth y cymunedau o fewn y fwrdeistref sirol

7. **Lleihau'r Bwlch Cyflogau rhwng y Rhywiau**

5.5 Mae'r amcan sy'n ymwneud â Lleihau'r Bwlch Cyflogau rhwng y Rhywiau yn un o ofynion penodol y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

5.6 Mae Cynllun Gweithredu gweithredol wedi'i ddatblygu a bydd yn ofynnol i feysydd gwasanaeth ymgorffori'r camau gweithredu yn eu darpariaeth gwasanaeth, a darparu diweddariadau cynnydd blynyddol i'w cynnwys yn adroddiadau blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

5.7 Bydd y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, sydd heb eu cynnwys fel camau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn cael eu trosglwyddo i feysydd gwasanaeth perthnasol, gan eu bod yn cael eu hystyried yn benodol i wasanaethau, a mater i'r meysydd gwasanaeth hynny fydd ymateb i'r hyn a awgrymwyd ar lefel gwasanaeth.

5.8 **Casgliad**

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn sicrhau bod gan y Cyngor ddogfen polisi strategol addas i'r diben ar waith i ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol diweddaraf ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg. Fe'i datblygwyd yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Nid oes unrhyw ragdybiaethau wedi'u gwneud wrth baratoi'r Cynllun hwn.

## 7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

7.1 Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus penodol sy'n berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddangos eu bod wedi rhoi 'sylw dyledus' yn eu proses gwneud penderfyniadau er mwyn:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

7.2 Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw ailbennu rhywedd, anabledd beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhyw, hil, oed, priodas a phartneriaeth sifil, a rhyw. Fel Cyngor rydym hefyd yn cydnabod y Gymraeg fel nodwedd warchodedig.

7.3 Cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig llawn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 wrth gael ei ddatblygu ac yn barod ar gyfer y broses ymgynghori a ddilynodd.

7.4 Yn dilyn y broses ymgynghori, diweddarwyd yr asesiad effaith i adlewyrchu unrhyw bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr.

7.5 Gallwch weld yr Asesiad Effaith Integredig llawn yma:
https://www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/iia/cynllun-cydarddoldeb-strategol-2024-2028-cbsc

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Mae Amcan Cydraddoldeb 6 – Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal ac Amcan Cydraddoldeb 7 – Lleihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn ymwneud â gweithgareddau Gwasanaethau Pobl. Mae'r amcan Cyflog rhwng y Rhywiau yn un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

9.2 Yng ngoleuni gofynion Safonau'r Gymraeg a gofynion ehangach Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, bydd unrhyw oblygiadau personél yn cael eu trin gan Wasanaethau Pobl a'r Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg wrth iddynt godi, ac adroddir arnynt drwy'r adroddiadau blynyddol.

## 10. YMGYNGHORIADAU

10.1 Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio ar 20 Chwefror 2024. Mae sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar yr adroddiad fel a ganlyn:

Canmolodd aelod yr adroddiad ac awgrymodd ei fod yn nodi'r nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Awgrymwyd y byddai canolfan neu ganolbwynt Cymraeg lle gall pobl (yn enwedig pobl iau) gyfarfod a defnyddio'r Gymraeg o fudd, er mwyn annog ei defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Awgrymwyd y byddai cysylltu â phobl ifanc i ofyn beth y byddent yn ei hoffi hefyd yn ddefnyddiol.

Dywedwyd wrth y pwyllgor craffu bod Fforwm Iaith Gymraeg yn cael ei gydlynu gan Fenter Iaith Caerffili y mae'r Cyngor yn aelod ohono. Mae hyn yn dwyn ynghyd sefydliadau Cymraeg gan gynnwys Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG), Mudiad Meithrin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ysgolion lleol, a cholegau, ac ati sy'n gweithio ar wahanol brosiectau gyda sawl prosiect ar y gweill. Mae swyddogion Caerffili yn ymweld ag ysgolion i drafod pwysigrwydd y Gymraeg a manteision y sgiliau yn y gweithle. Mae ymweliad wedi'i gynllunio wythnos nesaf ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni er enghraifft, gyda myfyrwyr Blwyddyn 10 i drafod gyrfaoedd a sgiliau iaith Gymraeg, gydag ymweliad arall ag Ysgol Gyfun Cenydd Sant yr wythnos wedyn i gynnal gwasanaeth Blwyddyn 10 ar yr un pwnc.

Gwnaeth yr aelod rai awgrymiadau ynglŷn ag annog cantorion neu grwpiau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghaerffili i'w hyrwyddo ymhellach.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cynnal sesiynau Cymraeg byr i Aelodau er mwyn dysgu rhai geiriau neu ymadroddion syml. Awgrymwyd y gellid trefnu hyn cyn cyfarfodydd y Cyngor fel sesiwn galw heibio i unrhyw aelod.

Hysbyswyd y pwyllgor craffu fod hyn yn rhywbeth y gellid ei drefnu a bod adnodd ar gael hefyd o'r enw 'Cymraeg Achlysurol' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i rannu â sefydliadau eraill.

Soniodd aelod am ei ymweliadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n effeithiol iawn yn y dosbarth a

hefyd yn cael ei hannog ar y buarth.

Canmolodd yr aelodau'r datganiad cydraddoldeb, gyda'r cynnwys LHDTC+ yn werth ei amlygu. Soniodd yr Aelod yn arbennig am y digwyddiad Pride a gynhaliwyd yng Nghaerffili y llynedd ac a gynlluniwyd eto ar gyfer eleni. Diolchodd yr Aelod i bawb a fu'n ymwneud â threfnu'r digwyddiadau hyn. Eglurwyd y bydd digwyddiad Pride eleni yn cael ei gynnal yng Nghaerffili eto ac mae hyn yn dilyn arolwg y llynedd pan ddywedodd pobl y byddent yn hoffi dod yn ôl i Gaerffili.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Ar ffurf Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Yn dilyn yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, cytunwyd hefyd i argymell y drafft i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

10.2 Mae'r adroddiad hwn wedi'i anfon at yr Ymgynghorai a restrir isod ac mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 (Atodiad A) sydd wedi'i atodi.

## 11. PŴER STATUDOL

11.1 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Hawliau Dynol 1998
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Awdur:
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg
cullima@caerffili.gov.uk

Ymgynghorai:
Dave Street, Dirprwy Brif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Mark S Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd
Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro
Y Cynghorydd Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad
Y Cynghorydd Philippa Leonard, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelwch y Cyhoedd - Hyrwyddwr Cydraddoldeb
Y Cynghorydd Carol Andrews, Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau - Hyrwyddwr LHDTC+
Y Cynghorydd Gary Johnston, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio
Y Cynghorydd Amanda McConnell, Is-Gadeirydd Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio
Sue Richards, Pennaeth Trawsnewid a Chynllunio Addysg a Strategaeth
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Kathryn Peters, Rheolwr Polisi Corfforaethol
Christopher Hunt, Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol

Elizabeth Sharma, Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Geraint Ashton, Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
Karen Williams, Rheolwr Hyb Digidol Gwasanaethau Cwsmeriaid
Lisa Lane, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Lisa Rawlings, Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol
Louise Aston, Swyddog Cymorth Cyflogaeth Arweiniol
Marcus Lloyd, Pennaeth Isadeiledd
Mike Headington, Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Thrafnidiaeth
Nick Taylor-Williams, Pennaeth Tai
Rhian Kyte, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio
Ros Roberts, Rheolwr Gwella Busnes

**Papurau Cefndir**

**ATODIADAU:**
**ATODIAD A -** Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024-2028 CBSC

Gellir gweld yr holl ddogfennau ategol sy'n ymwneud â chamau datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 ar y dudalen we hon – https://trafodaeth.caerphilly.gov.uk/cynllun-cydraddoldeb-strategol-2024-2028